



TGAU

3010NB0-1

DYDD GWENER, 7 MEHEFIN 2024 – PRYNHAWN

LLENYDDIAETH GYMRAEG

UNED 2: Y Nofel

HAEN UWCH

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

Defnyddiwch yr indecs ar dudalen 3 i ddod o hyd i'r cwestiynau ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.

Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.

Ni allwch ddefnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan. Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

(Trowch y dudalen)

NOFELAU	TUDALEN
AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones)	4
I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn)	8
LLYFR GLAS NEBO (Manon Steffan Ros)	12
DIM (Dafydd Chilton)	16
YN Y GWAED (Geraint Vaughan Jones)	20
O RAN (Mererid Hopwood)	24

AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – ALUN JONES

1. **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

11. **Trafodwch y modd y mae thema **CARIAD** yn datblygu yn y nofel hon.**
Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol.
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]

12. **Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 5–7.**
Sut awyrgylch sydd yn y darn?
Sut mae'r awdur yn creu'r awyrgylch?
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]

13. **Ysgrifennwch **LYTHYR GLADYS** at ei ffrind ar y noson cyn iddi farw.**
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau perthnasol.
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]

[40 MARC]**(Trowch y dudalen)**

Dechreuodd ei galon guro'n gyflymach wrth iddo fynd heibio i ffordd Tan Ceris ar y chwith. Yr oedd yn gymaint ag y gallai wneud i'w atal ei hun rhag aros yn y fan a'r lle a llamu dros ben y cloddiau a thyrchu i nôl ei ffortiwn. Ac yna dychrynodd. Yr oedd wedi gweld dau siâp mawr annisgwyl dros y gwrych ar yr ochr chwith, un wrth ochr y llall. Be gebyst? Arafodd y car ac arhosodd ar ochr y ffordd. Craffodd drwy'r ffenest.

5 Yr oedd y gwrych ar ei ffordd. Agorodd y drws a safodd ar hiniog y car iddo gael gweld yn well. Tŷ gwydr. Ffensi. Gerddi taclus. Tai. Tai ym mhobman. Disgynnodd yn ôl i'r car a'i lygaid yn serennu yn ei ben. Teimlai ei fron yn mynd yn dynn i gyd a meddyliodd ei fod am fygu. Agorodd y ffenest wrth ei ochr. Curai ei galon fel gordd.

10

15

Yr oedd yn laddar o chwys fel y gyrrai'n araf ymlaen. Daliai i weld toau tai yr ochr arall i'r gwrych, a phan ddaeth at y fan lle'r oedd y ffordd fach garegog y parciodd ei gar arni pan oedd yn cuddio'r gemau, nid oedd hanes ohoni, dim ond tua deg troedfedd o wrych yn amlwg o'i daclusrwydd yn fwy newydd na'r gweddill ohono. Am nad ai'r ffordd fach i unman ond i ganol y caeau, yr oeddynt wedi ei chwalu o fodolaeth ac wedi cau'r bwlch ar ochr y ffordd fawr.

20

25

30 Darfu'r tai. Ac yna gwelodd Richard y ffordd newydd sbon yn mynd i'r chwith. Gwelodd y ddau arwydd gwyn bob ochr i'r ffordd, a'r geiriau Maes Ceris mewn llythrennau breision arnynt. Gwelodd y palmantau taclus a'r polion lamp concrid.

35 Mewn hunllef trodd y car ar hyd y lôn. Ymhen ychydig lathenni yr oedd ganddo ddewis o droi i'r chwith i ganol tai neu i fynd yn syth ymlaen i ganol tai. Tua'r chwith yr oedd y diemwntiau ac i'r chwith yr aeth Richard.

40 Yr oedd y tai newydd bob ochr i'r ffordd gyda waliau brics isel o'u hamgylch. Wrth fynd ymlaen, gwelai Richard nifer o ffyrdd llai yn troi i'r dde bob hyn a hyn a mwy o dai ar eu hyd a chyn bo hir yr oedd y ffordd yr oedd Richard arni ei hun yn troi i'r dde, ac ar ôl troi gwelodd Richard ffordd Tan Ceris y tu ôl i'r tai i'r chwith iddo. Cyraeddasai ben draw'r stad.

45 Troai'r ffordd i'r dde eilwaith ar ôl rhyw ganllath a gyrodd Richard yn araf i geisio darganfod unrhyw beth cyfarwydd, ond nid oedd hanes o'r hen wrychoedd na'r coed na dim, a chyn iddo lawn sylweddoli hynny, yr oedd wedi troi i'r dde unwaith eto ac wedi cyrraedd yn ôl i'r fan y cychwynnodd. 50 Daeth y gwirionedd yn don rewlyd drosto; yr oedd caeau Tan Ceris yn dai i gyd, ac yr oedd y diemwntiau ar goll. Yr oedd yr holl baratoi a'r cynllunio, y mentro a'r poeni, wedi bod yn ofer.

(Trowch y dudalen)

55 Wedi'i syfrdanu'n llwyr, aeth Richard o
gwmpas y stad eto. Chwiliodd am bolyn trydan;
nis gwelodd, dim ond digon o bolion concriid a
lampau culion ar eu pennau. Chwiliodd am olion
60 gwrychoedd, ond yr oedd yr holl le yn rhy hyll
o daclus i ganiatáu hynny. Daeth yn ôl i'r man
cychwyn heb fod fymryn elwach ar ôl ei siwrnai.

I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – EIRUG WYN

2. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
21. Trafodwch y modd y mae thema **CARIAD** yn datblygu yn y nofel hon.
Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol.
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]
22. Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 9–11.
Sut awyrgylch sydd yn y darn?
Sut mae'r awdur yn creu'r awyrgylch?
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]
23. Ysgrifennwch **LYTHYR MANUELITO** at ei ffrind ar ôl iddo ddarganfod Haul y Bore ar ddechrau'r nofel.
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau perthnasol.
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]

[40 MARC]

(Trowch y dudalen)

O'i amgylch roedd ei ddynion yn mynd o gorff i gorff yn gwneud yn siŵr fod pob Indiad yn farw. Dim ond ambell ergyd oedd i'w chlywed erbyn hyn, ac roedd y sŵn mwyaf yn distewi.

5 Ymhen rhai eiliadau aeth ei chwilfrydedd yn drech nag o. Aeth at y babell a chan estyn ei bistol gwyrdd yn ei gyfrwy ac agor y fflap.

Rhegodd dan ei anadl pan welodd y rhwyg yn y cefn. Ysbardunodd ei geffyl a'i gymell i gefn y babell. Gwelai'r ferch yn rhedeg. Roedd hi bron â chyrraedd y coed.

10 Roedd Haul y Bore yn rhedeg am ei bywyd. Roedd hi wedi gweld y milwr yn dod tuag ati ar gefn ei geffyl a gweddiai y gallai gyrraedd y coed cyn iddo sylweddoli beth oedd ei bwriad.

15 Roedd Chiquito'n dynn yn ei mynwes a hithau'n nesáu gam wrth gam tuag at ddiogelwch. O'i hôl clywodd sŵn carlamu gwyllt a gwyddai fod y milwr yn dod ar wib. O fwrw cipolwg dros ei hysgwydd gwelodd y ceffyl yn dod ar ei gwarthaf. Hyrddiwyd hi a Chiquito i'r llawr. Cododd ar ei heistedd gan afael yn dynn yn ei baban. Edrychodd ar y milwr. Roedd hwnnw wedi disgyn o'i gyfrwy ac yn sefyll uwch ei phen a'i bistol yn ei law.

25 Roedd yn ŵr mawr, cydnerth a barf goch yn cuddio'r rhan fwyaf o'i wyneb. Roedd o'n cnoi baco. Gwenodd, a daeth rhes o ddannedd brown,

budron i'r golwg. Poerodd y sug ar lawr wrth ei draed. Rhoddodd ei bistol yn ôl yn ei holster.

30 Daeth ton o ryddhad dros Haul y Bore. Doedd o ddim yn mynd i'w saethu wedi'r cyfan. Estynnodd un llaw ati fel petai am ei chynorthwyo i godi, ond yr eiliad nesaf roedd o wedi cipio Chiquito oddi arni. Cododd hithau i'w amddiffyn
35 ond cafodd ddyrnod yn ei hwyneb nes roedd hi ar lawr drachefn.

“Na!” sgrechiodd.

Roedd Dicks wedi taflu'r baban wrth ei draed ac yn dadweinio'i gledd.

40 “Un arall yn llai – bitsh!” ysgyrnygodd. Yna gwthiodd ei gleddyf drwy stumog y plentyn.

Fferrodd Haul y Bore. Fedrai hi wneud na dweud dim. Roedd hi eisiau sgrechian
45 “CHIQUITO!” ond rhewodd yr enw ar ei gwefusau a llanwyd ei llygaid â dychryn. Roedd hi eisiau chwydu. Chwydu ei pherfedd ar y borfa. Roedd hi eisiau marw. Marw fel ei Chiquito.

Ond doedd Dicks ddim wedi gorffen. Roedd rhai o'r milwyr eraill yn dod draw ato, a chan
50 fod ganddo gynulleidfa, roedd o am roi sioe go iawn iddyn nhw. Cododd ei gleddyf uwch ei ben a disgynnodd y llafn creulon ar wŷyr at y corff llonydd wrth ei draed. Prociodd, a chododd ei gledd. Bloeddiodd y milwyr eu cymeradwyaeth.

55 Roedd pen y baban ar flaen y cleddyf.

Yn ei dychryn ni wyddai Haul y Bore beth i'w
wneud. Roedd hi eisiau hyrddio'i hun at y milwr
blewgoch, roedd hi eisiau ei ddiberfeddu, cowjio'i
lygaid o'i ben, ei ysbaddu – ond fedrai hi wneud
60 dim. Gafaelodd yn ei gwallt a'i dynnu o'i wreiddiau.
Gwthiodd ei bysedd i'w cheg a'u brathu'n galed.
Drwy'r cyfan roedd ei hanadl wedi mynd yn
afreolaidd. Roedd yna rywbeth yn gwthio'i ffordd
i fyny o'i stumog. Roedd yna waed ar ei phen lle
65 rhwygwyd ei gwallt o'i wraidd, roedd yna waed lond
ei cheg. Rhoddodd ei llaw friwedig ym mhlygion ei
mynwes a theimlodd garn y gyllell.

LLYFR GLAS NEBO – MANON STEFFAN ROS

3. **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
31. **Trafodwch y modd y mae thema **CARIAD** yn datblygu yn y nofel hon.**
Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol.
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]
32. **Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 13–15.**
Sut awyrgylch sydd yn y darn?
Sut mae'r awdur yn creu'r awyrgylch?
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]
33. **Ysgrifennwch **LYTHYR ROWENNA** at Gaynor wedi iddi gyrraedd Nebo.**
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau perthnasol.
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]

[40 MARC]

(Trowch y dudalen)

5 Sgwarnog oedd o, ond roedd o'n afiach. Ar gefn ei ben, yn codi tu ôl i'r clustiau hirion yna, roedd 'na lwmp. Lwmp mawr, ac roedd gan y lwmp geg fach a dannedd a dwy glust fach, fach fel stympiau. A dau lygad gwag, marw, fel tasa rhywun wedi dwyn y peli yn ei lygaid.

'Nes i chwydu yn y fan a'r lle.

10 Roedd o'n afiach, y sgwarnog yma efo dau wyneb, fel un creadur a hanner mewn un corff. Ac roedd bob dim sy'n glws mewn sgwarnog yn hyll yn yr ail wyneb fflat, marw ar gefn ei ben.

Roedd y sgwarnog yn crio.

15 Dwn i ddim be wnaeth i fi neud o. Fedrwn i'm ei ladd o, falla am na fedrwn i fyta ffasiwn beth. Ond 'swn i wedi gallu gadael iddo fo fynd. Ond fedrwn i ddim gwneud hynny chwaith, er, dwi'm yn siŵr pam.

20 Mi es i i sied Mr a Mrs Thorpe, sy'n ogleuo fatha paent a phren. Roedd o'n dal yr un fath ag oedd o flynyddoedd yn ôl, heblaw 'mod i wedi benthyc rhai o'r tŵls a'r hen gryman. Mam oedd yn gwneud i mi ddeud 'benthyc', achos ro'n i'n gwybod na faswn i byth yn gorfod eu rhoi nhw'n ôl.

25 Roedd 'na hen gynfas wen yna, yn stremps paent i gyd. Dyma fi'n mynd â hi at y trap ac yn penlinio wrth y sgwarnog. Dyma fo'n agor ei geg fel tasa fo'n gweiddi, ond doedd 'na ddim sŵn yn dod allan.

30 Lluchiais i'r flanced dros y sgwarnog, gan adael ei ben o a'i goes yn y golwg. Roedd o'n llonydd. Ac yna dyma fi'n defnyddio darn o bren i agor dannedd y trap, a thynnu troed y sgwarnog yn rhydd.

35 Wnaeth o ddim rhedeg i ffwrdd. Mi godais i o yn y flanced, a mynd â fo yn fy mreuchia i'r sied. Doedd o ddim yn teimlo dim gwahanol i unrhyw sgwarnog arall, heblaw ei fod yn crynu. Fysach chi ddim wedi deud fod ganddo fo ail wyneb o gwbwl.

40 Ar ôl ei adael o yn y sied, mi es i allan a hel petha neis, meddal – gwair a dail a ballu – iddo fo gael gwneud gwely bach os oedd o isio. Roedd o'n cuddiad y tu ôl i un o'r cypyrddau. Mi arhosais i am ychydig i weld ddôl o allan, ond ddoth o ddim, felly mi es i allan a chau'r drws ar fy ôl.

45 'Gest ti w bath?' gofynnodd Mam pan es i i mewn i'r tŷ. Roedd hi wedi bod yn hel dalan poethion i ginio ac roedd hi'n dal i wisgo'r menig.

'Doedd o ddim yn iawn,' atebais inna. Llonyddodd Mam ac edrychodd i fyny arna i. 'Roedd ganddo fo ddau wyneb.'

'Be?'

50 'Ar gefn ei ben, roedd 'na wyneb arall. Gwynab 'di marw.'

Edrychodd Mam i lawr wedyn, ac anadlodd allan yn hir.

'Oedd o 'di brifo?'

55

'Dim lot. 'Nes i adael iddo fynd.'

Nodiodd Mam. Dwi ddim yn gwybod pam 'nes i ddim deud y gwir wrthi am y sgwarnog yn y sied. Dwi ddim yn meddwl fasa hi 'di dallt.

DIM – DAFYDD CHILTON

4. **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
41. **Trafodwch y modd y mae thema **CARIAD** yn datblygu yn y nofel hon.**
Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol.
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]
42. **Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 17–19.**
Sut awyrgylch sydd yn y darn?
Sut mae'r awdur yn creu'r awyrgylch?
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]
43. **Ysgrifennwch **LYTHYR GWYN** at Richard Lloyd o'r brifysgol.**
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau perthnasol.
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]

[40 MARC]

(Trowch y dudalen)

Agosaodd yr hofrennydd cyntaf a pharatoi i lanio. Yn sydyn taflodd y gwynt gwthwm o eira a niwl ar ei draws ac roedd y peilot yn gweld dim; roedd pob gorwel a nodwedd tir wedi diflannu yn y gwynder. Daeth i lawr yn rhy sydyn. Gwelodd wyneb y rhewlif. Tynnodd yn ôl yn galed ar y golofn lywio, ond yn rhy hwyr. Trawodd cynffon yr hofrennydd yr eira. Chwalwyd y rotor ôl, ac o golli grym hwnnw fe ddechreuodd corff yr hofrennydd droi dan bwysau'r rotor mawr.

Ac yna roedd yr hofrennydd ar ei ochr, yn gorff. Crynai a smiciai am eiliad fel morfil modern, moduraidd, newydd ei ladd.

Rhedodd dynion y gwersyll i dynnu'r peilot a'i gyd-beilot ohono.

Ceisiodd yr ail hofrennydd lanio. A llwyddodd. Dringodd dynion y gwersyll a pheilotiaid yr hofrennydd cyntaf iddo a chau'r drysau. Doedd dim lle i'r pwysi o offer a chyfarpar; gadawyd y rheiny ar y rhewlif efo'r hofrennydd cyntaf. Cododd y peilot reolwr y llafnau'n ofalus ac, yn araf deg, fe gododd yr hofrennydd o'r llawr.

Aeth popeth yn wyn.

A'i beilot yn gweld dim, yn paffio'r gwynt ac yn agos o hyd at wyneb y rhewlif, fe gwmpodd yr ail hofrennydd – ond y tro hwn heb droi drosodd.

Dringodd pawb allan ohono, a disgwyl y trydydd hofrennydd.

30 Glaniodd. Ac fe lwythwyd, gorlwythwyd o.
 Dechreuodd godi'n simsan o wyneb y rhewfor.
 Paffiai'r peilot â'r liferi llywio wrth i'r hofrennydd,
 fel trychfil mecanyddol afrosgo, godi i'r awyr a throï
 am y môr. Gwyrodd yn wyllt ac yn ddirybudd dro
 ar ôl tro dan hyrddiadau'r gwynt. Ac yn yr howld
 35 roedd oglau sur chwys oer y rhai a wasgwyd at
 ei gilydd yno, y twrw, y dirgrynu, a phwysau'r
 orfodaeth i ildio'n llwyr i allu rhywun arall, yn
 orchfygol. Edrychodd Owain ar y wynebau gwelw
 tyn o'i gwmpas. Chwiliodd am arwyddion gwendid,
 40 a rhagrybuddion toriad. Daliodd lygad, nodiodd,
 gwenodd. Mesurodd, a symud ymlaen i'r nesaf.

Dyrnodd yr hofrennydd yn ei flaen ac yn raddol
 fe ymdawelodd y gwyro gwyllt. Hedodd o gyrraedd
 gwyntoedd yr ynys a chiliodd y cyfog a oedd wedi
 45 codi i gefn gyddfau'r dynion. Doedd dim modd
 dweud gair oherwydd dwndwr a dirgrynu'r peiriant,
 ond roedd y tyndra eithafol yn llacio. Yn araf bach
 fe ddechreuodd meddyliau pawb dreiglo i gyfeiriad
 prydau poeth a chawod, a chwsg.

50 Ond ym meddwl pawb roedd yna gwestiwn.
 Pam?

Pam gosod tîm o ddynion ar ganol rhewlif yn
 Ne Georgia yng nghanol y fath dywydd er mwyn

teithio deng cilomedr i wneud rhywbeth roedd yn
55 bosibl ei wneud yn well o lefydd eraill agosach?

Y tu ôl i furiau ei ddyletswydd, roedd Owain
yn meddwl am y Swyddog Intelligence newydd
ar y cwch. Doedd Owain heb weld Symonds ers
y cyfarfod hwnnw efo Hammond yng Ngogledd
60 Iwerddon, a phan aeth ato i'w gyfarch a'i groesawu
fe'i cafodd yn anghyfforddus ac fel petai ddim am
gael ei weld yn ei gwmni. Oedd a wnelo fo unrhyw
beth â'r hyn a oedd newydd ddigwydd ar Rewlif
Fortuna?

65 Roedd Owain yn sicr o un peth: ei fod yn
gwybod pam yr anfonwyd yntau yno.

YN Y GWAED – GERAINT VAUGHAN JONES

5. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
51. Trafodwch y modd y mae thema **CARIAD** yn datblygu yn y nofel hon.
Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol.
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]
52. Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 21–23.
Sut awyrgylch sydd yn y darn?
Sut mae'r awdur yn creu'r awyrgylch?
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]
53. Ysgrifennwch **LYTHYR MARED** at Robin pan mae hi'n sâl yn ei gwely.
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau perthnasol.
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]

[40 MARC]

(Trowch y dudalen)

Daeth pethau i ben un bore Llun, yr unfed ar ddeg o Fawrth, ar ôl Sul o bendroni ac atgofio, o ddychmygu ac arswydo. Dyna ddrwg dydd Sul, roedd yn ddiwrnod mor swrth a'i oriau'n llusgo.

5 Roedd y penderfyniad wedi'i ffurfio'n derfynol yn ystod oriau effro'r nos a phan ddaeth Mared allan i ben y grisiau cerrig drannoeth gyda'r ychydig lestri budron yn ei dwylo a gweld Mam yn cymell yr ieir i bigo ar glwt di-eira o'r buarth, dyma ymwroli. Roedd Robin yn siŵr o fod yn ddigon pell o'u clyw.

'Tri mis? Tri mis ddeudist ti?'

Eiliadau o syllu anghrediniol a'r ferch, o'r diwedd, yn gostwng ei golygon yn gyndyn euog.

15 'Tri mis? Lle uffar wyt ti 'di bod na fasat ti 'di deud wrtha i'n gynt?'

'Peidiwch â gweiddi, Mam.' Llais tawel, edifeiriol. 'Pa wahaniaeth pe bawn i wedi deud ynghynt?' Roedd tri blewyn y ddafaden yn plycio'n ffyrnig.

20 'Gwahaniaeth, ddeudist ti? Pa wahaniaeth? Fedri di ofyn cwestiwn mor dwp?' Yn hytrach na gostwng ei llais roedd hi'n gweiddi mwy. 'Yli, anodd fydd petha rŵan!'

25 Teimlodd Mared beth o'r euogrwydd yn ei gadael wrth deimlo'r angen i'w hamddiffyn ei hun.

'Wel, deudwch y gwir. Fasa fo wedi gneud rhywfaint o wahaniaeth? Fis, dau fis yn ôl, gwylltio

(Trowch y dudalen)

30 fel hyn fasach chi wedi'i neud 'run fath yn union,
fel pe baech chi'ch hun yn gwbl ddihalog.'

'Paid ti â chodi dy lais ata i, yr hoedan fach!
Nac edliw! Na defnyddio dy eiria ffansi chwaith.
Ti'n gwbod be 'di dy wendid di wedi bod erioed,
yn dwyt?' Roedd ei llais wedi codi'n sgrech bron.

35 'Rhy barod i ledu dy goesa'r butan fach!'

Ffrwydrodd Mared hefyd. 'Peidiwch chi â
'ngalw i'n butan.'

'Be arall wyt ti ond hwran? Sgin ti syniad pwy
ydi'r tad! Nag oes ma'n siŵr.'

40 'Putan? Hwran? Pwy uffar 'dach chi i siarad ac
i daflu'ch bustul?'

Daeth sŵn drws y llofft stabal yn cael ei
ysgwyd a chododd ton o grochlefain dig ond
roedd y ddwy yn fyddar iddo.

45 'A 'dach chi'n gofyn pwy ydi'r tad? Wel,
hwyrach y bydd raid i 'mhlentyn inna alw'i dad yn
Dewyrth ne rwbath felly hefyd!'

50 'Gan bwyll, y gnawas!' Roedd llygaid yr hen
wraig yn melltennu a'i cheg yn glafoerio. 'Mesur dy
eiria'n well! Pwy ydi o?' Ac yna'n ddistawach, yn
fwy petrus, 'Yr un un ag o'r blaen?'

Chwarddodd Mared yn wawdlyd. 'Mi fasach
chi'n licio gwbod yn basach!'

55 'Atab fi'r munud 'ma! Ydi o'n perthyn iti?'
Roedd y drws uwch eu pennau'n cael ei
ysgwyd yn lloerig a'r crochlefain wedi troi'n

un waedd ofidus, hir. Sobrodd Mared drwyddi a gostyngodd ei llais.

‘Yn perthyn imi? Falla’i fod o. Falla’n wir ’i fod o.’

60

Ni chlywodd Robin ymateb olaf ei chwaer ond bu yno wrth dalcen cwt y tractor yn ddigon hir i ddeall beth oedd yn digwydd. Gwelodd ei fam yn brasgamu’n ffyrnig yn ôl i’r tŷ a Mared yn llusgo’i thraed ar ei hôl.

65

‘Y Sais uffar!’ sgyrnygodd, a chryndod ei dymer, yn gymysg ag oerni’n meirioli, yn rhedeg drosto. ‘Aros di i mi gael gafal arnat ti.’

O RAN – MERERID HOPWOOD

6. **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
61. **Trafodwch y modd y mae thema **CARIAD** yn datblygu yn y nofel hon.**
Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol.
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]
62. **Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 25–27.**
Sut awyrgylch sydd yn y darn?
Sut mae'r awdur yn creu'r awyrgylch?
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]
63. **Ysgrifennwch **LYTHYR ANGHARAD** at Mair cyn iddi ddychwelyd o Lundain.**
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau perthnasol.
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]

[40 MARC]

(Trowch y dudalen)

Erbyn bore dydd Sul, roeddwn i wedi codi gwres a ches fy esgusodi rhag mynd i'r cwrdd a'r Ysgol Sul. Diolch byth. Allen i byth â bod wedi sefyll yn y sêd fawr yn wynebu pawb yn dweud
 5 adnod heddi, a byth fod wedi mynd nôl i'r capel yn y prynhawn i wneud modelau bach o bentref Iesu Grist mas o plasticine brown.

Ond perswadodd Myng-gu fi i ddod gyda hi i'r cwrdd nos. Roeddwn i wedi hanner bwyta bara
 10 sop mewn basned o Bovril ac yn dechrau teimlo'n well. Roedd cwmni a sylw diflino Myng-gu hefyd wedi gwneud i fi anghofio am ddydd Llun, ac am ddychweliad sicr Mr Hughes a'm tynged ansicr i.

Aeth Dad â ni yn y Morris Minor ar hyd Western
 15 Avenue ac i'r cwrdd. Doedd braidd neb ar y ffordd. A gallech fentro fod yr ychydig geir a oedd i'w gweld arni yn anelu at ryw gapel neu'i gilydd. Doedd Dad ddim yn dod i'r cwrdd mwy. Ac wedi ein gollwng ni tu fas i ddrws y capel, gwyliais y car
 20 yn mynd o'r golwg, a'i adain fach oren yn wincio o ymyl y drws. Ffordd fach y car oedd hon i ddweud 'gw-bei' wrthyf i.

Roedd mynd i'r cwrdd nos yn antur. Doedd dim plant yn dod i'r cwrdd nos, ac roedd y capel a fu
 25 mor llawn yn y bore yn wacach o lawer. Gan fod llai o bobl, roedd llai o arogl pobl a mwy o arogl polish.

Eisteddodd Myng-gu a fi yn y sêd arferol a

dechreuais ar y gêmâu arferol. Sawl un oedd yma?
 30 Sawl dyn? Sawl menyw? Sawl menyw'n gwisgo
 het? Yna, troi fy sylw at rifau'r emynau ar y bwrdd
 ar bwys yr organ. Adio'r rhifau, tynnu'r rhifau.
 Lluosi'r rhifau.

Ac wrth ddechrau lluosï y dechreuodd
 wynebâu Alun Hopkins a Jeffrey Gable a Mr
 35 Hughes ddod allan o bibau'r organ ac o'r reilings
 glas a melyn o flaen y galeri a nofio o gwmpas y
 capel nes eistedd yn y côr rhyngof i a Myng-gu.

Gyda hynny, cododd Mr Richards fys pwyntio'i
 law dde, a'i anelu rywle tua'r cloc ar flaen y galeri.
 40 Tynnodd anadl. A'i dal. Disgwyliodd y ffyddloniaid
 yn y saib dramatig arferol. Ac o'r diwedd, cododd
 ei destun:

Llyfr Cyntaf Samuel. Yr unfed bennod ar
 bymtheg. Adnod saith.

45 'Oherwydd nid edrych Duw fel yr edrych dyn;
 canys dyn a edrych ar y golygiad; ond yr Arglwydd
 a edrych ar y galon.'

Daeth y bys i lawr. Plethodd Mr Richards ei
 freichiau a'u gorffwys ar y Beibl. Plygodd ymlaen a
 50 chan syllu'n syth arna i dros ei sbectol, dywedodd
 rywbeth am eiriau rhyw ficer o Lanymddyfri. Mae
 hwnnw ar bwys Llanybydder, meddyliais. Ac yna,
 taranodd:

55 ‘Y mae Duw yn gweld y cwbwl
Pan na byddo dyn yn meddwl ...’

Cyn sibrwd yn arswydus:

 ‘Chi’n gweld,’ SAIB. ‘Mae Duw,’ SAIB. ‘Medde
Mathew,’ SAIB.

 ‘Yn gweld yn y dirgel!’

60 ‘Myng-gu, Myng-gu.’
Roedd hi’n rhy hwyr.

 Daeth holl gynnwys y swper sop yn ôl a
glanio’n dwt yn fy ngharffed, a chan ddal hem fy
ffrog fel cwdyn, mas â Myng-gu a fi i’r cyntedd.

65 Daeth Mrs Ifans mas gyda ni, ac agor drws y festri.

 Ac mewn ffws a ffwdan, er mawr ddryswch a
thristwch i mi, ces ordors i dynnu’r ffrog a gwisgo
un o sachau bugeiliaid y ddrama Nadolig, nes
daeth y car bach gwyrdd yn ôl, a’i winc oren lawen
70 heb y syniad lleiaf o bicil ei gyd-deithwraig goll.